# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar EF Abertawe

## ar gyfer y flwyddyn adrodd 1 Tachwedd 2022 i 31 Hydref 2023

Cyhoeddwyd Tachwedd 2024

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o’r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 7 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 10 |
| 6. | Iechyd a llesiant | 15 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 18 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | |
| Ystadegau’r Bwrdd | | 23 |
| Ceisiadau i’r Bwrdd Monitro Annibynnol | | 23 |


**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Blynyddol ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo.
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed a'i nod yw ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Adeiladwyd Carchar EF Abertawe yn 1861 i ddarparu ar gyfer 219 o garcharorion, ac mae'n garchar categori B/C ar gyfer oedolion ifanc a dynion sy'n oedolion. Nid yw strwythur y bloc preswyl wedi newid, er ei fod wedi cael ei foderneiddio a'i uwchraddio. Agorwyd adain newydd, adain G, ym mis Medi 2015, gan ychwanegu 60 lle arall. Cyn pandemig Covid-19, oherwydd y boblogaeth gynyddol yn y carchar, pennwyd mai 475 oedd y capasiti gweithredol (y nifer fwyaf o garcharorion y gellir eu dal heb beri risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y drefn arfaethedig yn briodol)[1]. Mae'r rhan fwyaf o gelloedd yn gartref i ddau garcharor, ynghyd â nifer fach o gelloedd unigol ar gyfer y rheini yr ystyrir bod angen celloedd o'r fath arnynt.

[1]Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Pwyntiau allweddol

## 3.1 Prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Barn y Bwrdd, o'i waith monitro a'i ryngweithio cyffredinol â staff a charcharorion, yw bod Carchar EF Abertawe yn garchar diogel.

### Triniaeth deg a dyngarol

- Cyflwynodd Prosiectau Amey broblemau sylweddol o ran gwaith mawr.
- Mae mynediad ar gyfer pobl anabl yn broblem o hyd, yn bennaf oherwydd cynllun cymhleth yr adeiladau.
- Mae gorlenwi wedi bod yn broblem fawr, gyda dau ddyn yn rhannu celloedd wedi'u dylunio ar gyfer un person, a rhai carcharorion sydd angen un gell yn methu â chael cell o'r fath.
- Cynhelir adolygiadau o drefn a disgyblaeth dda (GOoD) (lle mae'r carchar yn penderfynu a ddylid cadw carcharor ar wahân i garcharorion eraill oherwydd ei ymddygiad aflonyddgar) ar adegau rhyfedd, sy'n aml yn atal aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol rhag gallu bod yn bresennol at ddibenion monitro.
- Roedd yr adran addysg a gweithgareddau yn ei chael yn anodd darparu gwasanaeth cydlynol, yn rhannol oherwydd bod staff wedi cael eu hatal dros dro.
- Yn sgil arsylwadau'r Bwrdd, penodwyd gweithwyr allweddol ond nid oeddent yn rhyngweithio llawer â'r carcharorion.
- Mae angen defnyddio gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd The Big Word yn amlach.

### Iechyd a llesiant

- Mae iechyd meddwl llawer o garcharorion yn dal i fod yn bryder mawr, er bod gwasanaethau wedi gwella'n sylweddol.
- Mae rhaglenni dibyniaeth 12-cam ar waith ond mae'r cyllid yn anghyson iawn.

### Cynnydd ac adsefydlu

- Mae'r cynllun peilot gwybodaeth mechnïaeth wedi dod i ben – ni sicrhawyd y staff a addawyd ac nid oedd y Gwasanaeth Gwybodaeth Mechnïaeth yn gallu helpu oherwydd pwysau gwaith.
- Mae llety ar ôl rhyddhau yn gryn broblem o hyd.

## 3.2 Prif feysydd datblygu

### *I'R GWEINIDOG*

- Mae'r Bwrdd yn bryderus iawn am nifer y carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol ac sy'n aml ar ddedfrydau tymor byr. Mae dedfrydau tymor byr yn lliniaru ymyriadau adeiladol ar eu rhan ac nid oes gan y carchar yr adnoddau i ddelio â chymhlethdod y problemau sydd gan y carcharorion hyn beth bynnag. Pryd fydd y Gweinidog yn cyflwyno mesurau sy'n galluogi carcharorion i gael ymyriadau mwy addas na charcharu?

### *I'R GWASANAETH CARCHARDAI*

- Un pryder mawr yn ystod y cyfnod adrodd oedd effeithiolrwydd Prosiectau Amey o ran darparu gwasanaeth effeithlon i'r Carchar. Rydym yn bryderus nad ydynt wedi cael eu dwyn i gyfrif yn briodol am eu gwasanaeth gwael ac argymhellwn y dylid ailasesu eu penodiad ac y dylid sicrhau gwerth am arian priodol.

***I LYWODRAETH CYMRU***

- Mae llety ar ôl rhyddhau yn parhau i fod yn broblem fawr. Rydym yn deall nad yw hwn yn fater y gellir ei ddatrys yn hawdd ond hoffem i gyllid gael ei dargedu tuag at ddatrys y broblem benodol hon. Mae'r Bwrdd yn glir iawn bod diffyg 'to dros eich pen' yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at aildroseddu.

***I'R LLYWODRAETHWR***

- O arsylwadau'r Bwrdd, gwelir bod y swyddogaethau addysg a gweithgareddau wedi bod mewn cythrwfl yn ystod y cyfnod adrodd. Deallwn fod ymdrechion mawr wedi'u gwneud i ddatrys y problemau hyn ac edrychwn ymlaen at weld y swyddogaethau hyn yn gwbl weithredol yn y dyfodol agos.
- Unwaith eto, rydym yn gobeithio y gellir trefnu'r adolygiadau o drefn a disgyblaeth dda mewn ffordd sy'n galluogi aelodau i roi sylw iddynt. Teimlwn mai pennu amser a diwrnod penodol ar gyfer pob wythnos fyddai orau, os yw hyn yn bosibl.
- Mae problemau o hyd ynghylch camerâu fideo ar y corff a The Big Word. Mae'r Bwrdd yn teimlo bod angen defnyddio'r ddau yn fwy.

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a chynefino

4.1.1 Bu cynnydd ym mhoblogaeth y carchar yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r dderbynfa wedi dal i fyny gyda'r cynnydd yn y boblogaeth. Mae fêps ychwanegol wedi cael eu dyrannu yn y dderbynfa sydd, yn ôl pob golwg, wedi gweld gostyngiad yn swm y dyledion. Er bod dyledion yn dal i fod yn broblem.

4.1.2 Mae cyflogi Gwrandawyr yn parhau i fod yn bwysig iawn ac mae'r swydd maen nhw'n ei gyflawni yn cael ei ganmol. Maent yn adrodd yn ôl yn fisol ac yn rhoi adborth ar hwyliau'r carcharorion. Yn dilyn marwolaeth yn y ddalfa, fe wnaethant adrodd am ofid cychwynnol ymhlith y carcharorion, ond roedd y gefnogaeth a gynigiwyd gan y staff yn ddigonol.

4.1.3 Mae nifer y cynlluniau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) a agorwyd yn fwy yn y dderbynfa. Mae staff yn ymwybodol bod angen asesu carcharorion ac mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud gyda gofal iechyd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y gefnogaeth pan fyddant yn cyrraedd y carchar. Mae nifer yr achosion o hunan-niweidio ar y noson gyntaf wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y newidiadau a roddwyd ar waith yn y dderbynfa ac yn sgil y gefnogaeth gan staff.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. Cafodd y Bwrdd Monitro Annibynnol ei hysbysu ac roedd yn bresennol ac wedi arsylwi'r digwyddiadau a hefyd yn bresennol yn y sesiwn ôl-drafod. Mae'r materion yn aros am gwest y crwner. Dywedodd y Gwrandawyr fod y dynion yn cael cefnogaeth dda ar y pryd gan y staff a'r sefydliad ac fel y nodwyd eisoes, roedd hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol gan y dynion.

4.2.2 Mae'r carchar wedi gweld cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn unol â charchardai eraill. Mae hyn wedi arwain at ailasesu pob carcharor er mwyn sicrhau bod rhagor o welyau ar gael. Mae dynion a gafodd eu dosbarthu'n risg uchel yn flaenorol yn cael eu hailasesu a'u cadarnhau fel carcharorion a all rannu celloedd. Arweiniodd hyn at bryder ymysg carcharorion, ond mae hyn bellach wedi lleihau.

**4.2.3** Ar ddechrau'r cyfnod adrodd roedd tuedd amlwg fod oedolion ifanc ymhlith y ganran uchaf o'r rheini oedd yn hunan-niweidio. Y ffigur ar gyfer hunan-niweidio bryd hynny oedd 45% o'r boblogaeth. Lluniodd y carchar holiadur i'w ddosbarthu gyda chymorth seicolegydd. Roedd yr ymateb yn siomedig gan fod llai na 50% wedi ymateb. Daethpwyd i'r casgliad mai anghysondeb oedd hyn ac nid tuedd. Efallai fod y cymorth ychwanegol a gynigir gan y carchar ac yn benodol gan y Tîm Argyfwng wedi datrys y broblem.

4.2.4 Er gwaethaf y boblogaeth uwch, roedd hunan-niweidio yn dal yn isel. Ychydig o ddynion oedd yn cyfrif am gyfran o'r digwyddiadau ac ad-droseddwyr oeddent yn aml. Yr offer a ddefnyddiwyd ganddynt yn aml oedd llafnau rasel a chyllyll plastig. Arweiniodd hyn

at roi cynllun rasel trydan ar waith. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn hunan-niweidio oherwydd llafnau rasel, sy'n galonogol.

4.2.5 Cynhaliwyd adolygiad o lefelau hunan-niweidio yn y carchar dros y ddwy flynedd flaenorol. Canfu fod nifer yr achosion o hunan-niweidio wedi gostwng 23% o un flwyddyn i'r llall. Datgelodd fod y nifer fwyaf o ddigwyddiadau wedi digwydd yn yr adain ar gyfer Cyn-filwyr. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd eu problemau cymhleth ac am eu bod yn agored i niwed.

4.2.6 Er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth, ni fu cynnydd yn nifer y cynlluniau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCTs). Mae'r staff wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn ac mae ansawdd yr wybodaeth wedi gwella. Mae'r ACCTs yn cael eu hadolygu'n brydlon gyda mewnbwn gofal iechyd bob amser. Mae adolygiad o'r 12 mis diwethaf wedi cael ei gynnal ac mae hyn wedi dangos gostyngiad o 16% o'i gymharu â ffigurau 2020 a gostyngiad o 6% o'i gymharu â ffigurau 2021. Credir mai'r ACCT newydd (f6) sy'n gyfrifol am y gostyngiad ac mae'r ffigurau wedi cael eu cyflwyno i'r swyddog dalfa fwy diogel rhanbarthol i'w hystyried ymhellach. Roedd ffigurau hunan-niweidio hefyd wedi gostwng dros yr un cyfnod ac ni nodwyd unrhyw dueddiadau clir. Nodwyd lefel isel iawn o hunan-niweidio yn yr Uned Gofal a Gwahanu. Yn y dderbynfa y caiff y nifer fwyaf o ACCTs eu cychwyn a chaiff y rhan fwyaf eu cychwyn gan rywun o'r maes gofal iechyd.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.3.1 Ar ddechrau'r cyfnod adrodd roedd gweithredoedd treisgar wedi gostwng 12.5% o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, er gwaethaf y cynnydd ym mhoblogaeth carchardai. Roedd llai o garcharorion yn cael eu rhoi ar gynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIPs) ac roedd gostyngiad yn nifer yr ymosodiadau ar staff.

4.3.2 Roedd digwyddiadau o drais wedi cynyddu ym mis Tachwedd 2022 ac eto ym mis Mawrth 2023, lle gwelwyd nifer yr ymosodiadau ar staff yn cynyddu o ddim i dri rhwng mis Chwefror a mis Mawrth. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â bygythiadau geiriol neu boeri ar staff a digwyddodd un ymosodiad yn y dderbynfa. Arweiniodd hyn at gynnal adolygiadau CSIP yn amlach. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae nifer y digwyddiadau'n dal yn isel, o fewn y norm i'r carchar ac nid oeddent yn awgrymu tuedd, er y gallai gyd-fynd â'r cynnydd mewn problemau iechyd meddwl yn y carchar. Dylid nodi bod gan y carchar fwy o ddarpariaeth ar gyfer cymorth seiciatrig bellach, sydd wedi'i groesawu.

4.3.3 Roedd buddsoddiad mewn diogelwch yn y carchar yn 2021 ac roedd hyn, ynghyd â mesurau fel y Tîm Chwilio Dynodedig (DST), y sganiwr corff a swyddogion trin cŵn ychwanegol, wedi sicrhau gwelliannau a allai fod wedi helpu i greu amgylchedd mwy diogel yn y carchar.

4.3.4 Roedd nifer y digwyddiadau treisgar yn erbyn cyd-garcharorion hefyd yn isel, o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth. Roeddent hefyd yn isel o'u cymharu â charchardai eraill ac roeddent o fewn y niferoedd disgwyliedig ar gyfer y carchar.

### 4.4 Defnyddio grym

4.4.1 Cynhaliwyd adolygiad yn ystod y cyfnod adrodd i ystyried lefelau trais yn y carchar. Y prif ymosodiadau gan garcharorion ar staff oedd poeri ac nid oedd defnyddio arfau'n gyffredin.

4.4.2 Roedd trais rhwng y dynion wedi digwydd yn bennaf oherwydd dyled a thrais achlysurol rhwng cyd-ddiffynyddion. Gweithiodd y tîm lleihau trais gyda'r dynion i leihau'r trais drwy gynnal fforymau rheolaidd ar ddyledion a mentor cymheiriaid dalfa fwy diogel i ddelio â'r gwahanol faterion.

4.4.3 Mae camerâu ar y corff ar gael i bob swyddog ac mae'r rhain wedi cael eu hannog. Maent wedi bod yn ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth ac fe'u hadolygir bob dydd. Ychydig iawn o gwynion a gafwyd pan ddefnyddiwyd grym, ac mae'r holl recordiadau'n cael eu dadansoddi. Mae gan y carchar record dda o ran defnyddio grym.

4.4.4 Roedd y defnydd o rym yn isel ac yn lleihau. Ni fu defnydd o PAVA na batonau yn ystod y cyfnod adrodd.

**4.5 Atal eitemau anghyfreithlon**

4.5.1 Roedd y carchar wedi gosod sganiwr corff tua 18-24 mis yn ôl. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gan fod gostyngiad, yn ôl pob golwg, yn nifer y cyffuriau anghyfreithlon sy'n dod i mewn i'r carchar. Yn anffodus, mae cynnydd wedi bod yn y defnydd o "sbeis" yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r carchar wedi ceisio deall o ble y dechreuodd hyn ond mae hefyd wedi gweithio ar y gred y gallai'r cyffur fod wedi cael ei gynhyrchu'n fewnol ac mae wedi cymryd camau i dynnu rhai eitemau o'r ffreutur er mwyn ceisio atal pobl rhag ei gynhyrchu, os mai dyma'r achos.

4.5.2 Ym mis Hydref 2022 agorodd y carchar ACCTs yn y dderbynfa ar gyfer y carcharorion hynny a oedd yn dadwenwyno o alcohol. Cadwodd gofnod hefyd o unrhyw ddyn a oedd yn ymddangos dan ddylanwad sylweddau anghyfreithlon.

4.5.3 Er gwaethaf ymdrechion i reoli'r defnydd o sbeis a'r mesurau a gymerwyd, mae'n dal yn broblem yn y carchar. Mae'n amlwg bod camddefnyddio sylweddau nawr yn un o'r prif resymau dros alw am Wrandawyr. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro i wneud yn siŵr nad yw hyn yn duedd. Roedd y sefyllfa'n dal i gael ei hadolygu ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

4.5.4 Prin yw'r adegau pan fydd unrhyw eitemau anghyfreithlon eraill yn dod i mewn i'r carchar.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Roedd methiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i benodi rheolwr prosiect wedi arwain i bob pwrpas at ddod â'r gwaith adnewyddu celloedd yr oedd angen dybryd amdano yng Ngharchar EF Abertawe i ben rhwng mis Mai a mis Hydref 2022. Ar ôl penodi Amey Projects i arwain y rhaglen, aeth y sefyllfa yn fwy digalon byth yn ystod y flwyddyn adrodd, pan nad adnewyddwyd yr un gell, er bod cynlluniau i ailddechrau ym mis Rhagfyr 2023. Er bod cyllideb wedi'i dyrannu, mae hyn yn golygu na wnaed unrhyw waith dros gyfnod o 17 mis o ganlyniad i'r ffaith bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnwys adnewyddu celloedd o dan ei changen rheoli prosiectau. Y sgil effaith oedd bod cost adnewyddu celloedd wedi cynyddu, collwyd cyfleoedd i rai carcharorion wneud gwaith (er bod hyn yn gyfyngedig) ac nid oedd unrhyw bosibilrwydd o fwrw ymlaen gyda phrosiectau eraill.

5.1.2 Mae mynediad i bobl anabl yn dal i fod yn wael. Mae'r un gell sy'n cydymffurfio â rheoliadau anabledd, ar adain C, wedi cael ei defnyddio'n helaeth ers iddi gael ei chreu. Mae un lifft, ar adain G, a dau lifft i gyrraedd y gegin a'r dderbynfa. Mae lifft grisiau wrth y giât, sy'n caniatáu i ymwelwyr sydd ag anghenion mynediad ddod i mewn i'r carchar.

5.1.3 Aethpwyd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â diogelwch yn ystod y flwyddyn adrodd. Er enghraifft, mae system bŵer eilaidd wedi cael ei rhoi yn yr holl unedau anwedd dŵr gan helpu i wella diogelwch tân yn y carchar. Fodd bynnag, nid yw'r unedau samplu aer yn y celloedd (ar gyfer canfod mwg) yn addas i'r diben. Mae'r mewnfeydd yn cael eu rhwystro mewn lle cyfyng o'r fath ac mae'r unedau bellach wedi darfod, felly nid ydynt yn gynaliadwy.

5.1.4 Yn ystod y flwyddyn adrodd, adnewyddwyd y cawodydd ar adain C a'u hailadeiladu'n llwyr yn y brif gampfa. Mae problem o hyd gyda draeniau'r cawodydd yn blocio ond mae gan Amey amserlen dreigl ar gyfer delio â'r mater hwn. Mae Amey yn gwneud yr holl waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd ac yn darparu cyflogaeth i dri charcharor yn y siopau, deg carcharor fel peintwyr adain, a thri neu bedwar carcharor yn y gyfnewidfa ddillad.

5.1.5 Mae'r carchar yn dal i fod yn orlawn, gyda dau ddyn yn rhannu celloedd wedi'u dylunio ar gyfer un person. Mae llenni o amgylch toiledau yn y celloedd yn darparu rhywfaint o breifatrwydd a, gyda phob pryd sy'n cael ei fwyta mewn cell sy'n mesur 6 troedfedd x 9 troedfedd, mae dynion, i bob pwrpas, yn bwyta yn y toiled.

5.1.6 Mae cyfuniad o wasanaeth golchi dillad mewnol (sy'n darparu cyflogaeth i garcharorion) a pheiriannau golchi/sychu dillad ar yr adain yn sicrhau bod digon o wasanaethau golchi dillad yn y carchar, gyda chyfarpar a dillad gwely yn cael eu newid ar lefel dderbyniol, ym marn y Bwrdd.

5.1.7 Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn aml yn gwrando ar gwynion carcharorion am golli dillad tra byddant yn cael eu cludo o'r llys neu eu trosglwyddo o garchar arall. Cafwyd rhai canlyniadau llwyddiannus i garcharorion pan gysylltodd y Bwrdd Rheoli Annibynnol â Byrddau cyfatebol mewn carchardai eraill (lleol fel arfer) i gael cymorth. Mae eiddo/dillad coll wedi bod yn gyson ymhlith y tair prif gŵyn yn ystod y flwyddyn adrodd (gweler hefyd 5.7.2).

5.1.8 O arsylwadau ac adroddiadau'r Bwrdd gan garcharorion, mae'r dynion yn ymddangos yn fodlon ar y bwyd a gynigir, ar y cyfan, ac yn ystyried bod maint y prydau'n

ddigonol. Maent yn awyddus i gael mwy o fwydlenni thematig drwy gydol y flwyddyn, gan fod hyn yn rhywbeth i edrych ymlaen ato ac, felly, yn codi morâl. Pryder i lawer o garcharorion yw diffyg brecwast poeth: nid yw lefelau staffio'n caniatáu digon o amser allan o'r celloedd i hyn ddigwydd. Mae pryd olaf y dydd ar y penwythnos am 4pm, sy'n afresymol o agos at y pryd bwyd ganol dydd. Ar gyfer carcharorion sy'n cymryd meddyginiaeth gyda'u prydau bwyd, ac mae hynny'n nifer gymharol uchel, mae hyn yn broblem gan fod meddyginiaeth i helpu i gysgu yn cael ei chymryd yn rhy gynnar o lawer.

5.1.9 Mae darpariaeth dda ar gyfer deietau arbennig ac mae dull gwell o gyfeirio carcharorion at opsiynau halal a llysieuol, ac ati, yn cael ei rhoi ar waith. Mae hyn wedi cymryd peth amser, oherwydd bod gwybodaeth yn cael ei symud i system TG wahanol, ond mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

5.1.10 Mae aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi ymweld yn aml ar wahanol adegau o'r wythnos, yn ogystal ag ar y penwythnos, ac mae pawb o'r farn bod y gegin yn parhau i fod yn lle cadarnhaol i weithio. Mae carcharorion yn teimlo'n fodlon eu bod yn gallu gweithio tuag at gymwysterau NVQ Lefel 1 mewn Lletygarwch a Lefel 2 mewn Bwyd a Hylendid. Mae'r staff yn falch o nodi bod rhai llwyddiannau wedi bod ar gyfer y ddau gymhwyster a gall carcharorion nawr gysylltu â chyflogwyr cyn cael eu rhyddhau.

**5.2 Gwahanu**

5.2.1 O'i harsylwadau, mae'r Uned Gofal a Gwahanu fel arfer yn ddigynnwrf, ac yn gyffredinol mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r dynion. Mae hyn yn ganmoladwy, o ystyried y nifer y mae iechyd meddwl gwael yn dylanwadu ar eu hymddygiad. Mae carcharorion yn dweud eu bod yn cael ymweliadau gan y Llywodraethwr ar Ddyletswydd, staff o'r adran gofal iechyd, y gaplaniaeth a'r Bwrdd Monitro Annibynnol.

5.2.2 Nid yw byrddau ac adolygiadau Trefn a Disgyblaeth Dda wedi cael eu harsylwi'n rheolaidd gan y Bwrdd Monitro Annibynnol oherwydd y nifer fach o aelodau. Mae'r Bwrdd yn poeni am ddiffyg hysbysiadau byrddau ac adolygiadau gan nad oes amseroedd penodol ar gyfer y naill na'r llall. Mae'r rhai rydym wedi'u monitro wedi cael eu rheoli'n deg ac yn drugarog a chaiff carcharorion eu hannog i fynegi eu barn.

5.2.3 Gellid gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gweithgareddau pwrpasol i garcharorion. Mae detholiad bach o lyfrau a phecynnau tynnu sylw ar gael, y mae carcharorion yn fodlon arnynt, gan fod y cynnwys yn cael ei newid yn rheolaidd.

**5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol**

5.3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y carchar wedi cadw 290 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd. Roedd absenoldebau salwch yn amrywio rhwng 14.92 ym mis Tachwedd 2022 a 6.57 ym mis Ebrill 2023, gyda tharged perfformiad o 9.0. Rhwng dechrau Tachwedd 2022 a mis Rhagfyr 2022, roedd rhwng 17 a 21 o staff newydd ar hyfforddiant i swyddogion sy'n newydd-ddyfodiaid. Bob mis, roedd nifer o swyddogion ar ddyletswydd neilltuol genedlaethol, gyda 18 o staff i ffwrdd ym mis Chwefror 2023. Gall yr holl ffactorau hyn effeithio ar y drefn ond, yn benodol, roedd atal nifer o staff dros dro, o fis Ebrill 2023 hyd at ddiwedd y flwyddyn adrodd (12 erbyn mis Medi 2023), yn amlwg wedi effeithio ar gyflawni gwaith allweddol yn ystod y cyfnod hwn (gweler 5.3.3). Penodwyd Llywodraethwr newydd ym mis Ionawr 2023.

5.3.2 Mae trosiant isel y staff yn cefnogi perthnasoedd cymharol dda rhwng staff a charcharorion. Mae cyfraddau aildroseddu'n uchel, felly mae swyddogion weithiau wedi meithrin perthynas â charcharorion dros nifer o flynyddoedd. Er bod carcharorion a

sefyllfaoedd heriol, mae'r defnydd o rym yn dal i fod yn isel. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi arsylwi ymyriadau 'wedi'u cynllunio', fel tynnu carcharor o'i gell i'r Uned Gofal a Gwahanu, neu rhwng celloedd yn yr Uned oherwydd, er enghraifft, protest fudr, lle mae defnyddio grym wedi bod yn gymesur a lle mae materion urddas wedi cael eu trin yn sensitif. Mae cyfarfodydd cynrychioli carcharorion bob pythefnos yn parhau, yn cael eu harsylwi'n rheolaidd gan aelod o'r Bwrdd ac, yn ddi-os, maent yn cyfrannu at berthynas dda rhwng swyddogion a charcharorion.

5.3.3 Roedd nifer y sesiynau gweithwyr allweddol wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Gan gyfeirio at nodiadau achos a sgyrsiau NOMIS (y system gyfrifiadurol fewnol) gyda'r dynion eu hunain, roedd aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi bod yn nodi, er bod gweithwyr allweddol yn cael eu dyrannu, nad oedd sesiynau'n cael eu cynnal. O gymharu, rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022, cynhaliwyd 2,294 o sesiynau, ond yn ystod yr un cyfnod yn 2023 dim ond 695 o sesiynau a gynhaliwyd (gyda dim ond 68 yn cael eu cynnal ym mis Medi).

5.3.4 Mae'r rhesymau dros y cwymp dychrynllyd mewn gwaith allweddol wedi canolbwyntio ar yr effeithiau ar y drefn yn sgil atal staff dros dro, dyletswydd neilltuol, dyletswydd hebrwng, ac ati. Gweithio allweddol yw'r peth cyntaf i gael ei esgeuluso pan fydd problemau staffio. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd Carchar EF Abertawe mewn trafodaethau â Chyfarwyddwr y Grŵp Carchardai ynghylch dod yn safle peilot ar gyfer proses weithio allweddol ddiwygiedig.

5.3.5 Ochr yn ochr â'r system gweithiwr allweddol, mae'r carchar hefyd yn cyflwyno'r rhaglen dewisiadau a newidiadau, sef sesiynau un-i-un gyda throseddwyr ifanc yr aseswyd bod ganddynt aeddfedrwydd seicogymdeithasol isel. Mae pedwar gweithiwr allweddol wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r sesiynau hyn.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Mae'r Pennaeth Diogelwch yn arwain ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y carchar. Caiff rheolwr dalfa neu un o arweinwyr y Llywodraethwr ei neilltuo i bob nodwedd warchodedig (mae'r rhain yn cynnwys hil, crefydd, oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, y mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn eu herbyn). Mae cyfarfodydd cydraddoldeb yn parhau i gael eu cynnal yn fisol. Maent yn cyflwyno cryn dipyn o ddata, caiff cofnodion eu cadw, camau gweithredu eu cofnodi a dilynir eu hynt yn y cyfarfod nesaf. Mae nifer sylweddol o grwpiau ffocws a fforymau ar gyfer nodweddion gwarchodedig wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto, mae'r canlyniadau'n cael eu cofnodi a'r camau gweithredu'n cael eu cymryd.

5.4.2 Roedd canran y carcharorion o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Mawrth 2023 sef 22% – 13% oedd y ganran ym mis Hydref 2022. Parhaodd y lefel hon fwy neu lai drwy weddill y flwyddyn adrodd – y prif reswm oedd y cynnydd yn nifer y carcharorion o wledydd tramor, a oedd yn wladolion Albania yn bennaf. Cafodd y rhan fwyaf o'r Albaniaid eu cadw ar adain D ac rydym wedi sylwi pa mor aml y mae swyddogion yn dibynnu ar y rhai sy'n siarad Saesneg yn fwy rhugl i gyfieithu o ddydd i ddydd. Er bod defnyddio carcharorion eraill i gyfieithu, oni bai fod y mater yn sensitif, yn cael ei gymeradwyo gan y carchar, mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn dal yn bryderus nad yw staff yr adain yn gwneud defnydd digonol o wasanaeth cyfieithu The Big Word. Cyflwynwyd fideo cynefino newydd ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor ym mis Awst 2023, a gynhyrchwyd gan yr athro ESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill) a dynion sy'n mynychu dosbarthiadau ESOL.

5.4.3 Mae'r broses o symud carcharorion sy'n wladolion tramor i ganolfannau cadw yn digwydd cyn gynted â phosibl, os nad ydynt ar fechnïaeth mewnfudo, ac mae ymgyrch genedlaethol i gadw niferoedd yn y carchar yn isel. Mae'r swyddog mewnfudo allanol yn ymweld bob pythefnos.

5.4.4 O ran canlyniadau i ddynion o gefndiroedd ethnig leiafrifol, er bod amrywiadau bach, ni chafwyd unrhyw bryderon anghymesur o edrych yn feirniadol ar y data sy'n ymwneud â meysydd fel y cynllun cymhelliant, defnyddio grym, dyfarniadau (gwrandawiadau disgyblu a gynhelir pan amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar), gwahanu, cyflogaeth a phresenoldeb yn y gampfa.

5.4.5 Roedd nifer y ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) a oedd wedi cael eu cyflwyno yn parhau i fod yn isel: 11 rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023. Mae'r ffurflenni hyn yn dal i gael eu hanfon at Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek (ZMT) at ddibenion sicrhau ansawdd. Mae ZMT wedi parhau i ddarparu hyfforddiant DIRF ar-lein drwy gydol y flwyddyn i'r holl staff sy'n awyddus i'w gyflawni ac mae'n orfodol i'r Llywodraethwyr a rheolwyr y ddalfa ei gyflawni. Hoffai'r Bwrdd weld hyn yn orfodol i'r holl staff.

### 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

5.5.1 Mae caplaniaid llawn amser a rhan amser yn parhau i ddarparu rhaglen lawn iawn ar gyfer carcharorion o bob ffydd a dim ffydd. Bu cynnydd yn nifer y dynion sydd wedi mynegi diddordeb mewn paganiaeth ac mae staff yn darparu ar gyfer hyn. Mae cylchgronau ar gael yn y gaplaniaeth ar gyfer sawl prif ffydd.

5.1.2 Mae caplaniaid nawr yn gweld carcharorion y bore ar ôl iddynt gyrraedd yn hytrach nag yr un diwrnod. Mae'r newid hwn yn gweithio'n dda i staff a charcharorion, sy'n cael eu gweld yn yr adain gynefino.

5.1.3 Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch gwisgo eitemau crefyddol. Mae pob carcharor yn cael cyfle i fynychu gwasanaethau crefyddol, ar wahân i'r rhai sydd wedi cael eu gwahanu, y mae caplaniaid ar ddyletswydd yn ymweld â nhw bob dydd.

5.1.4 Mae carcharorion yn parhau i fwynhau gwyliau crefyddol, y mae staff y gegin yn darparu'n dda ar eu cyfer.

### 5.6 Cynlluniau cymhelliant

5.6.1 O gymharu mis Ionawr 2023 â mis Medi 2023, o ran gweithredu'r fframwaith polisi cymhelliant, gwelir mai canran y carcharorion sydd â statws sylfaenol yw 1% - 3%; statws safonol 75% - 67% a statws uwch 24% - 31%. Mae'r cynnydd yn y ganran sydd â statws uwch yn gwneud iawn am y gostyngiad yn nifer y dynion sydd â statws safonol. Cafwyd trafodaeth ynghylch ychwanegu categori 'goruwch' at y fframwaith ond nid oes penderfyniad pendant wedi'i wneud eto.

5.6.2 Mae'r broses ymgeisio ar gyfer statws goruwch, sy'n rhoi breintiau fel mwy o ymweliadau cymdeithasol, pŵer gwario, ymweliadau â'r gampfa ac ati, yn dibynnu ar fewnbwn swyddogion ar NOMIS, o dan yr is-gategori 'annog cymhelliant'. Ar yr adegau pan fydd carcharorion wedi cwyno wrth y Bwrdd eu bod yn credu nad yw'r cynllun yn cael ei weithredu'n deg neu nad yw camau cadarnhaol yn cael eu cofnodi, rydym wedi gallu cyfeirio at gofnodion ar NOMIS a siarad yn uniongyrchol â swyddogion/y Llywodraethwr ar ran carcharor. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r amserlen ar gyfer gwneud cais am statws uwch wedi gostwng o 12 wythnos i chwe wythnos.

5.6.3 Cynhelir fforwm misol rhwng y Llywodraethwr ar gyfer gwasanaethau preswyl a chynrychiolwyr carcharorion yr adain. Mae tegwch a chysondeb wrth gymhwyso yn eitem safonol sy'n cael sylw yn y cyfarfodydd, ochr yn ochr â chyfleoedd i gynrychiolwyr gyflwyno syniadau ar gyfer gwella'r cynllun cymhelliant.

5.6.4 Defnyddir y cynllun yn gadarnhaol i reoli ymddygiad. Mae dynion sy'n cael eu 'rhoi ar adroddiad' neu sy'n cael eu symud i adain wahanu yn cael statws sylfaenol yn awtomatig. Caiff lefelau cymhelliant ar gyfer statws sylfaenol eu monitro'n ddyddiol ac maent yn rhan o daflen briffio Oscar 1 a roddir yn ddyddiol i'r uwch dîm rheoli.

5.6.5 Mae'r holl gwynion sy'n ymwneud â defnyddio'r cynllun yn mynd at reolwyr dalfa'r adain ac yn cael eu copïo i'r Llywodraethwr ar gyfer gwasanaethau preswyl. Mae'r Llywodraethwr hwn yn ymdrin â phob apêl a bydd yn ystyried pob cofnod ar NOMIS ynghylch y carcharor.

### 5.7 Cwynion

5.7.1 Mae'r hyb busnes yn coladu ac yn gweinyddu'r broses ar gyfer delio â phob cwyn cam un (cwynion arferol) a cham dau (am fater sensitif) a gyflwynir gan garcharorion. Mae data cynhwysfawr yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu'n eang bob mis, gan gynnwys i'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Mae'r broses casglu data yn cynnwys tarddiad y cwynion; amseroedd ymateb; cwynion yn ôl ethnigrwydd; a phwnc y cwynion, gyda thri phrif bwnc y cwynion yn cael sylw bob mis.

5.7.2 Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Hydref 2023, derbyniwyd 330 o gwynion cam un a 28 o gwynion cam dau. Y tair prif gŵyn yn ystod y cyfnod hwnnw oedd:

- Eiddo: eitemau coll
- Bwlio: staff
- Cyllid/arian parod: arian carcharorion

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, y tair prif gŵyn oedd:

- Eiddo: eitemau coll
- Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC): apeliadau
- PIN: ffonau

5.7.3 Mae'r system gwyno'n gweithio'n weddol dda, yn ôl pob golwg, er bod gwaith samplu ymatebion gan y Bwrdd weithiau'n arwain at ymateb braidd yn fras gan rai swyddogion. Dyma lle bydd carcharorion yn aml yn cyflwyno cais i'r Bwrdd ar yr un pwnc. Gall cwynion a gyflwynir fod yn eithaf cymhleth yn aml, gyda charcharorion yn cwyno am nifer o faterion ar un ffurflen. Tynnwyd sylw at enghreifftiau lle canolbwyntiwyd ar 'un' mater, fel nad ymdrinnir â'r gŵyn yn ei chyfanrwydd.

### 5.8 Eiddo

5.8.1 Mae eiddo coll, fel y cyfeirir ato yn 5.1.8, yn nodwedd cwynion mewnol a cheisiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol (sylwadau ysgrifenedig gan garcharorion) ac yn aml dyma'r rhai anoddaf i'w datrys. Fel y soniwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r cyfyngiadau a osodwyd gan GeoAmey yn golygu bod dynion yn dibynnu ar eu carchar blaenorol i anfon eiddo coll ymlaen atynt, sy'n broblem enfawr.

## 6. Iechyd a llesiant

### 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Darperir gwasanaethau deintyddol drwy gontract gyda Time for Teeth a gwasanaethau optometreg gan The Prison Optician Trust.

### 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 Nid oes cyfleuster i gleifion mewnol yng Ngharchar EF Abertawe. Mae dynion sydd angen triniaeth yn yr ysbyty yn mynd i ysbytai lleol. Mae meddyg teulu yn ymweld â'r carchar bob dydd.

6.2.2 Roedd carcharorion yn gallu cael apwyntiadau gyda meddyg teulu, deintydd ac optegydd. Roedd amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau rheolaidd gyda'r meddyg teulu, y deintydd a'r optegydd yn gyson â'r norm cymunedol.

6.2.3 Roedd llwyth gwaith y tîm gofal iechyd yn drwm o hyd, gyda nifer fawr o boblogaeth y carchar yn cymryd meddyginiaeth. Roedd y tîm yn ymwneud â sgrinio gofal iechyd wrth gyrraedd a dogfennau ACCT. Hefyd, fe wnaethon nhw ymateb i argyfyngau meddygol yn y carchar. Ym marn y Bwrdd, mae'r tîm gofal iechyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth priodol, ac mae'r dynion yn cael mynediad prydlon at wasanaethau gofal iechyd.

6.2.4 Roedd yn ymddangos bod y gwaith o reoli apwyntiadau ysbyty allanol yn dda, gyda darpariaeth ddigonol, ym marn y Bwrdd.

6.2.5 Cafodd y rhan fwyaf o'r materion a gafodd eu cyfeirio at y Bwrdd eu datrys yn gyflym. Roedd staff gofal iechyd yn parhau i fod o gymorth mawr wrth ddatrys materion a gyflwynwyd iddynt gan y Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw cwynion sy'n cael eu trin gan y bwrdd iechyd lleol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Byddai'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn gwerthfawrogi'r wybodaeth hon.

6.2.6 Mae'r tîm gofal iechyd yn parhau i fod â chysylltiadau rhagorol â'r tîm iechyd meddwl, nyrs allgymorth ar gyfer carcharorion agored i niwed a'r meddygon ym meddygfa'r stryd fawr yn Abertawe, lle gallai carcharorion heb gartref sefydlog fynd am apwyntiad ar ôl cael eu rhyddhau.

6.2.7 Roedd gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ar gael hefyd. Mae clinigau iechyd rhywiol yn cael eu darparu gan y tîm gofal iechyd, a chynigir apwyntiadau dros y ffôn gydag arbenigwyr lle bo angen.

6.2.8 Darperir y gwasanaeth ffisiotherapi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac mae sesiynau wythnosol ar gael nawr oherwydd bod cymaint o alw am y gwasanaeth.

### 6.3 Iechyd meddwl

6.3.1 Roedd yn braf gweld bod y penderfyniad i ddarparu tîm iechyd meddwl mewngymorth amser llawn penodol i Garchar EF Abertawe wedi'i wireddu ar 1 Hydref 2023. Am lawer o'r flwyddyn adrodd, roedd rhan o'r tîm wedi'i lleoli'n barhaol yng Ngharchar EF Abertawe. Sicrhawyd cyllid i ddatblygu cymorth gweithiwr cymorth gofal iechyd i'r tîm iechyd meddwl mewngymorth. Mae'n cynnwys pedair nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, seicolegydd rhan amser ac arweinydd tîm.

6.3.2 Dylid llongyfarch y carchar ar gyflogi rheolwr cymorth niwroamrywiaeth (NSM). Mae dosbarthiadau dyddiol yn cael eu cynnal ar gyfer dynion niwroamrywiol.

6.3.3 Roedd gan y carchar hefyd un nyrs iechyd meddwl mewngymorth, a oedd yn gyswllt rhwng gwasanaethau seiciatrig a gwasanaethau seiciatrig fforensig i'r rheini yr oedd angen y gwasanaeth hwn arnynt. Trefnwyd bod seiciatryddion fforensig yn dod i'r carchar drwy'r nyrs yma. Roedd y gwasanaeth argyfwng yn gweithredu saith diwrnod yr wythnos. Roedd y tîm yn bresennol ym mhob adolygiad ACCT, yn gweld unrhyw garcharor mewn argyfwng ac yn cynnig ymyriadau priodol.

6.3.4 Cysylltodd staff gofal iechyd â'r tîm digartrefedd cyn rhyddhau carcharor, gan roi gwybod iddynt am driniaethau a meddyginiaeth y carcharor dan sylw. Roedd hyn yn parhau i fod yn fuddiol iawn yn y rhan fwyaf o achosion.

### 6.4 Gofal cymdeithasol

6.4.1 Roedd y panel diogelu yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Parhaodd y sefydliad i wneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn cynnal cysondeb gofal i'r rhai a oedd wedi bod yn destun ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol. Roedd y panel diogelu yn adolygu pob atgyfeiriad bob chwarter ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu holrhain.

6.4.2 Gallai sgrinio yn y dderbynfa dynnu sylw at faterion a gellid atgyfeirio wedyn at y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd carcharorion oedrannus yn cael eu hystyried yn awtomatig ar gyfer atgyfeiriad.

6.4.3 Cafodd pryderon eu hadolygu gan goladwyr a'u dadansoddi'n ddyddiol cyn cael eu atgyfeirio at yr asiantaeth fwyaf priodol.

### 6.5 Ymarfer corff

6.5.1 Mae ymarfer corff wedi parhau ar y lefelau arferol ac yn unol â safonau cenedlaethol.

### 6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

6.6.1 Darparwyd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau integredig gan Dyfodol, elusen sy'n arbenigo mewn camddefnyddio sylweddau a oedd yn darparu ymyriadau seicogymdeithasol, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a oedd yn darparu gwasanaethau clinigol. Arsylwodd y Bwrdd fod carcharorion a oedd yn cyrraedd a hwythau â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn cael eu nodi'n brydlon ac yn cael asesiad a chefnogaeth gan y tîm gofal iechyd sylfaenol. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn fisol.

6.6.2 Roedd yr archwiliad pelydr-X ar gyfer carcharorion pan oeddent yn cyrraedd y carchar a hefyd pan fyddent yn dychwelyd o'r llys yn atal y dynion rhag celu cyffuriau i ddod i mewn i'r carchar, er bod nifer sylweddol o ddynion â sganiau 'positif' wedi parhau drwy gydol y cyfnod adrodd.

6.6.3 Roedd y rhaglen 12 cam i ddod dros eu dibyniaeth yn dal i gael derbyniad da, gydag adborth cadarnhaol am y canlyniadau a gafwyd. Roedd y gwaith cynllunio cyn rhyddhau yn canolbwyntio ar atal llithro'n ôl, lleihau niwed a thriniaeth barhaus os oedd angen, gan atgyfeirio at wasanaethau cymunedol.

6.6.4 Mae llawer o waith wedi'i wneud ar y cynnig i ddarparu Naloxone (meddyginiaeth sy'n gwrthsefyll effeithiau heroin ac opioidau eraill drwy wrthdroi tananadlu a achosir gan y cyffuriau hyn) i ddynion drwy ddosbarthu mentor cymheiriaid yn y carchar ac ar ôl eu

rhyddhau. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol, gyda manteision enfawr posibl, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dyma fydd y prosiect cyntaf o'i fath yn y system garchardai.

## 7. Cynnydd ac ailsefydlu

### 7.1 Hyfforddiant a gweithdai galwedigaethol

7.1.1 Mae 158 o lefydd ar gael i weithwyr amser llawn oddi ar adain a 60 o lefydd i'r rhai sy'n gweithio ar adain. Mae rhai o'r gweithdai yn cynnig achrediad a chyfle i weithio tuag at gyflogaeth yn y gymuned. Mae'r rhai sy'n gweithio ar adain yn cynnwys glanhawyr, barbwyr, mentoriaid cymheiriaid a chymorth, a gweithwyr cegin. Mae'r cyfleoedd oddi ar adain yn cynnwys rheoli gwastraff, teilwriaeth, aml-sgiliau, BICS (cymhwyster sy'n darparu sgiliau i'r rheini yn y diwydiant glanhau) a golchi dillad. Mae presenoldeb y ganolfan alwadau yn y gwaith yn cael ei fonitro a chaiff y data ei drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd.

7.1.2 Mae Amey yn gwneud yr holl waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd ac yn darparu cyflogaeth i dri charcharor yn y siopau, deg carcharor fel peintwyr adain, a thri neu bedwar carcharor yn y gyfnewidfa ddillad. Darperir cyflogaeth hefyd yn y golchdy mewnol.

### 7.2 Rheoli troseddwyr a'u cynnydd

7.2.1 Cynhelir gwrandawiadau parôl drwy Teams yn ystafell fwrdd yr uned rheoli troseddwyr (OMU). Gall eiriolwyr ar ran carcharorion fod yn bresennol wyneb yn wyneb os ydynt yn dymuno. Fel arall, gallant gwrdd â'u cleientiaid o bell, gyda staff yr Uned Rheoli Troseddwyr yn hwyluso. Mae adborth gan ddefnyddwyr yn dangos bod hon yn ffordd fwy effeithiol a chost-effeithiol o gynnal y gwrandawiadau hyn.

7.2.2 Yn anffodus, mae'r Peilot Gwybodaeth Mechnïaeth, a oedd yn gweithio'n dda yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, wedi dod i ben. Cafodd y swyddog mechnïaeth yng Ngharchar EF Abertawe ei ddyrchafu i rôl reoli a hyd yn hyn, nid oes swyddog mechnïaeth newydd wedi'i benodi. Nid oes amserlen ar gyfer ymgyrch recriwtio ar hyn o bryd. Pan gysylltwyd â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Mechnïaeth, nid oeddent yn gallu helpu oherwydd pwysau gwaith.

### 7.3 Cyswllt â theulu

7.3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 18 diwrnod teulu (sy'n dod â dynion a'u teuluoedd at ei gilydd y tu allan i'w hawl statudol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol). Mae gan elusen Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact), gytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu 10 diwrnod teulu bob blwyddyn, gyda chefnogaeth tîm chwarae'r awdurdod lleol. Cyflwynwyd wyth diwrnod ychwanegol. Drwy weithio'n agos gyda'r Imam, cynigiwyd dau ddiwrnod teulu Eid am y tro cyntaf, gyda chymorth ychwanegol heb gontract yn cael ei ddarparu i'r rheini ar yr adain lle rhoddir cymhelliant i fyw heb gamddefnyddio sylweddau (ISFL).

7.3.2 Cafwyd cyllid ychwanegol drwy Gronfa Loteri Cymru i gael mwy o gefnogaeth. Ers mis Gorffennaf 2023, mae gweithiwr plant a phobl ifanc wedi cael ei ariannu dan gontract am ddwy flynedd, gan ddarparu cymorth un-i-un i blant sy'n cael trafferth gydag anwyliaid yn y ddalfa ac i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

7.3.3 Fel rhan o'r cynllun dedfryd gudd, mae llwybr atgyfeirio ysgolion i gefnogi teuluoedd. Mae'r gweithiwr plant a phobl ifanc yn gallu darparu hyfforddiant unwaith bob tri mis i ysgolion, CAMHS (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed), yr heddlu, clybiau lleol a staff carchardai, ac ati. Mae darpariaeth ar gyfer ymweliadau ag ysgolion a chartrefi i gefnogi plant sy'n cael eu hatgyfeirio at Pact. Defnyddir olwyn canlyniadau i

nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant unigol. Mae'r ymateb gan athrawon ynghylch yr hyfforddiant a gawsant drwy'r peilot Hear Our Voices wedi bod yn gadarnhaol.

7.3.4 Cafodd y Canllaw Ymweliadau Plant ei greu ar ôl i Pact weithio gyda rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol a chwrdd â staff o'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i greu canllaw yn benodol ar gyfer plant sy'n ymweld â Charchar EF Abertawe.

7.3.5 Mae cymorth ac arweiniad ar gael ar gyfer trefnu sesiynau fideo mewn carchardai, gyda gweithgareddau priodol wedi'u datblygu gan Pact i'w defnyddio yn ystod galwadau fideo cymdeithasol. Cefnogir y fenter gan staff y llyfrgell, sy'n danfon llyfrau i ystafell fideo'r carchar i dadau eu defnyddio yn ystod eu galwadau. Mae sesiynau misol dros Zoom yn cael eu trefnu gan Pact i gefnogi galwadau fideo cymdeithasol.

7.3.6 Mae sesiynau grŵp babanod a phlant bach ar gyfer plant dan bedair oed yn cael eu cynnal yn wythnosol. Gall tadau, llystadau a theidiau gymryd rhan. Cynhelir y sesiynau hyn, yn ogystal â gorchmynion ymweld, ac mae gan ddynion hawl i un ymweliad y mis. Ymweliad dwy awr yw hwn, gyda'r nod o annog bondio rhwng y plentyn a'r perthynas. Ynghyd â thasgau ymarferol, fel bwydo a newid babanod, mae gweithgareddau chwarae synhwyraidd ar gael.

7.3.7 Mae Pact yn darparu cymorth ac arweiniad i ddynion sy'n chwilio am gyswllt â phlant a theuluoedd. Gallai hyn fod o ganlyniad i berthynas yn chwalu neu'n gysylltiedig â throseddu. Mae'r tîm yn bwynt cyswllt rhwng gweithwyr proffesiynol eraill a dynion a bydd yn cefnogi carcharorion i ddod o hyd i gynrychiolaeth gyfreithiol.

7.3.8 Mae tîm y gaplaniaeth yn hwyluso ymweliadau ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth neu pan fydd amgylchiadau eithriadol. Mae Prosiect Angel Tree yn darparu anrhegion i ddynion eu rhoi i'w plant adeg y Nadolig. Mae'r tîm hefyd yn cynnal cysylltiadau â chanolfannau adsefydlu Cristnogol ar gyfer y rheini sy'n dymuno mynd i'r afael â'u problemau camddefnyddio sylweddau ar unwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

7.3.9 Mae arolygon sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn yn galluogi'r tîm i werthuso'r ddarpariaeth i sicrhau ei fod yn cyflawni'r arferion gorau. Cafwyd adborth cadarnhaol i dîm Pact yng Ngharchar EF Abertawe gan rieni, neiniau a theidiau a phlant.

### 7.4 Cynllunio Ailsefydlu

7.4.1 Mae'r tîm ailsefydlu yn parhau i ddatblygu cysylltiadau effeithiol â staff prawf yn y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Mae perthynas waith gref rhwng ailsefydlu a'r OMU, gan ganolbwyntio ar leihau aildroseddu.

7.4.2 Mae galw mawr am wasanaethau ailsefydlu, oherwydd trosiant y carcharorion, sy'n uchel am faint y sefydliad.

7.4.3 Mae'r bwrdd rhyddhau cydweithredol aml-asiantaeth yn cwrdd bob wythnos i drafod yr holl garcharorion sydd i fod i gael eu rhyddhau o fewn y pythefnos canlynol. Ymdrinnir â materion heb eu datrys a bydd carcharorion a rheolwyr troseddwyr y carchar (POM) yn bresennol. Caiff amodau'r drwydded eu datgelu yn y cyfarfod hwn.

7.4.4 Caiff ansawdd goruchwylwyr troseddwyr ei sicrhau'n effeithiol, gan fod digon o staff yn y tîm. Mae 13 o reolwyr troseddwyr y carchar, sy'n cael eu goruchwylio'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Ceir proses werthuso flynyddol. Mae gan bob un o'r rheolwyr hyn lwyth achosion realistig o oddeutu 25-30 o ddynion, a chaiff pob un ei gategoreiddio yn ôl risg. Cyflawnir sicrwydd ansawdd strwythuredig, a chaiff sgyrsiau eu cynnal bob tri mis i drafod achosion er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd yn y dull gweithredu.

7.4.5 Mae digon o staff i gefnogi carcharorion drwy’r ddedfryd ac felly i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd.

7.4.6 Mae dod o hyd i lety cynaliadwy ar ôl rhyddhau yn parhau i fod yn her. Mae rhai dynion yn cael eu rhyddhau heb lety. Nid oedd data ar gael i ddangos i sawl un o’r dynion y mae hyn wedi digwydd. Yn yr un modd, nid oedd yn bosibl canfod faint o ddynion sy’n cael eu rhyddhau i lety dros dro. Derbynnir atgyfeiriadau gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar drwy’r broses weithredol ganolog ar gyfer ailsefydlu, atgyfeirio a gwerthuso (CORRE). Darperir cymorth i gwblhau ceisiadau am dai, lle bo angen, ac yna fe’u cyflwynir i’r awdurdod lleol.

7.4.7 Mae’r arbenigwr tai rhanbarthol yn cyfatebu data perthnasol ac yn darparu ystadegau misol i’r carchar.

Mae’r data isod yn cyfeirio at y rheini a ryddhawyd ym mis Awst 2023:

- Rhyddhawyd 17% i lety tymor byr/dros dro
- Roedd gan 37% lety gyda theulu neu ffrindiau
- Roedd gan 43% lety rhent

7.4.8 Mae’r data dros dro a ddangosir isod yn cael ei gwestiynu ac ymchwilir i nifer yr elfennau negyddol er mwyn sicrhau cywirdeb:

- 77.3% gyda 17 o elfennau negyddol (3 o’r rhain o ganlyniad i ddata coll, lluosog neu ddyblyg).
- Roedd y data terfynol ar gyfer mis Awst 2023 yn 85.53% gydag 11 o elfennau negyddol (dim un oherwydd cofnodion coll, lluosog neu ddarfodedig).
- Mae gwallau cofnodi data yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan y tasglu atal digartrefedd i nodi problemau.
- CAS3 (llety dros dro a ddarperir am hyd at 84 diwrnod): 5% o achosion o ryddhau cadarnhaol (rhywun yn cael ei ryddhau gyda llety am o leiaf un noson)
- Llety tymor byr/dros dro: 17% o achosion o ryddhau cadarnhaol.
- Ffrindiau/teulu: 37% o achosion o ryddhau cadarnhaol.
- Llety rhent: 43% o achosion o ryddhau cadarnhaol.

7.4.9 Cynhaliwyd digwyddiad diwrnod digartrefedd y byd yng Ngharchar EF Abertawe ar 13 Hydref 2023. Pwrpas y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am wasanaethau cymorth llety ac adolygu llwybrau atgyfeirio i wasanaethau. Roedd cyfleoedd i rwydweithio â charcharorion a rhwydweithio â staff. Roedd staff o’r gwasanaeth ailsefydlu, CRS (gwasanaethau adsefydlu wedi’u comisiynu), y gwasanaeth prawf a Dyfodol yn bresennol, yn ogystal â staff o ddarparwyr gwasanaeth allanol fel awdurdodau lleol, darparwyr tai â chymorth, adeiladau cymeradwy a sefydliadau’r trydydd sector.

7.4.10 Mae gan Forward Trust (elusen sy’n cefnogi’r rheini y mae dibyniaeth yn effeithio ar eu bywydau) weithiwr yn y carchar bedwar diwrnod yr wythnos. Darperir cefnogaeth hefyd yn y gymuned ar ôl rhyddhau gyda’r rhai sy’n dewis ymgysylltu. Mae Ymddiriedolaeth St Giles yn parhau i ddarparu gwasanaethau ‘drwy’r gât’ fel rhan o’r llwybr llesiant i’r rheini sy’n gofyn amdano. Mae’r rhai sy’n ymwneud â phrosiect Clink hefyd yn cael cefnogaeth ar ôl cael eu rhyddhau am hyd at 12 mis.

7.4.11 Mae Prison Link Cymru yn helpu gyda chymorth tenantiaeth cyffredinol, fel cynnal taliadau a cheisio dod â thenantiaethau i ben neu eu cynnal. Maent yn gweithio gyda

charcharorion 6-12 mis cyn eu rhyddhau. Mae cysylltiadau wedi cael eu datblygu gyda nifer o randdeiliaid allanol, fel y rheini sy'n cynnig llety â chymorth a llety preifat. Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu creu gyda Housing Options a CTI Crisis.

### 7.5 Cyflogaeth/hyb cyflogaeth

7.5.1 Canran y carcharorion sydd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa yw:

- Ebrill 2023: 25%
- Mai 2023: 23.08%
- Mehefin 2023: 15.38%
- Gorffennaf 2023: 24.24%
- Awst 2023: 20%
- Medi 2023: 22.73%

Mae'r data'n cyfeirio at garcharorion a gafodd eu rhyddhau ar drwydded ac fe'i ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf.

7.5.2 Bythefnos cyn rhyddhau, mae carcharorion yn cwrdd â'r Bwrdd cyflogaeth ac ailsefydlu. Mae'r bwrdd aml-asiantaeth yn cynnwys aelodau o'r adran gofal iechyd, Dyfodol, yr OMU, y PEL (arweinydd cyflogaeth yn y carchar), yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Hyb Include. Mae'r Bwrdd yn gweithio i helpu i sicrhau bod dynion yn cael eu rhyddhau gyda'r lefel briodol o gefnogaeth ac arweiniad er mwyn gallu eu hadsefydlu i'r gymuned cyn gynted â phosibl.

7.5.3 Ar gyfartaledd, mae rhwng 5 a 10 cyfrif banc yn cael eu creu bob mis. Rhoddir cymorth i'r rheini sy'n gwneud cais am gredyd cynhwysol. Mae data sampl ar gyfer 31 Awst 2023 yn dangos bod 16 o ddynion yn dweud bod angen cymorth arnynt, bod 11 o ddynion yn bresennol yn y cyfarfod a bod 10 o apwyntiadau wedi cael eu gwneud.

7.5.4 Mae pob carcharor yn cael cyfle i fynd i'r hyb cyflogaeth yn ystod 12-18 wythnos olaf ei ddedfryd. Mae'n gweithredu'n debyg i ganolfan waith, lle mae carcharorion yn cael sgyrsiau un-i-un ynghylch sut maen nhw'n gweld eu dyfodol. Mae staff yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bresennol i roi cyngor ac mae dogfennau 'hawl i weithio' yn cael eu creu. Mae cysylltiadau wedi cael eu datblygu gydag amrywiaeth o gyflogwyr, gan gynnwys y rheini ym meysydd gweithgynhyrchu, lletygarwch ac adeiladu. Mae CWIC (Canolfan Arloesi Adeiladu Cymru) yn darparu cwrs sgaffaldiau a llafurio yn y carchar.

7.5.5 Rhoddir cyngor ar gymwysterau a chyllid ar gyfer cyrsiau sydd ar gael drwy Gyrfa Cymru. Darperir hyfforddiant ar y safle ar gyfer cerdyn CSCS (cynllun ardystio sgiliau adeiladu) ar gyfer y rheini sy'n dymuno gweithio ym maes adeiladu. Rhoddir arweiniad a chymorth ar greu CVs, gwneud cais am swyddi a datblygu sgiliau cyfweliad am swydd.

7.5.6 Sefydlwyd 'lolfa ymadael' ar gyfer carcharorion yn ystod eu pythefnos olaf yn y ddalfa. Roedd hyn yn cynnwys Prosiect BOSS, C4W, Gweithio Abertawe, CTI Crisis ac asiantaethau tai eraill, ynghyd â Cyfle Cymru.

7.5.7 Mae Cymru'n Gweithio yn adnodd gwerthfawr ac mae staff y rhaglenni hyn yn dod i'r carchar am o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos. Maent yn siarad â charcharorion sy'n agos at gael eu rhyddhau ac sy'n barod i weithio. Mae perthynas waith effeithiol gref rhwng y PEL a Cymru'n Gweithio, ac yn sgil y cydweithio hwn, crëwyd academi adeiladu a chysylltiadau â chyflogwyr a darparwyr addysg lleol ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Sefydlodd yr hyb cyflogaeth nifer o gyrsiau adeiladu, gan gynnwys Cal a Jenny, Abrasive Wheels, Posma Towers a Slinger Signaller, a ariannwyd gan ReAct

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd a argymhellir | 12 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 6 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 7 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 167 |

**Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 11 | 2 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau | 2 | 12 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 0 |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell | 7 | 4 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 21 | 5 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 12 | 9 |
| F | Bwyd a cheginau | 0 | 1 |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | 28 | 22 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 11 | 11 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall | 9 | 3 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | 7 | 5 |
| I | Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 14 | 15 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | 14 | 25 |
| K | Trosglwyddiadau | 2 | 1 |
| L | Amrywiol | 6 | 3 |
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | **144** | **118** |

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk